Crynodeb Gweithredol

Bydd y mesurau arfaethedig yn moderneiddio fframwaith cyfraith ansolfedd personol a chorfforaethol. Byddant yn annog pobl i gymryd risgiau cyfrifol, yn hwyluso'r gwaith o achub busnesau hyfyw ac yn rhoi sicrwydd a chwarae teg i gredydwyr a rhanddeiliaid eraill. Bydd ein cynigion yn ymdrin ag ofni methiant ac yn lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â methdalu. Bydd hyn yn annog y rhai sydd wedi methu yn onest i roi cynnig arall arni gan ddarparu ateb cadarn ac effeithiol yn erbyn y lleiafrif bach sy'n camddefnyddio eu credydwyr.

Diwygiadau Ansolfedd Personol

Rydym yn cynnig y newidiadau canlynol i'r gyfundrefn ansolfedd personol:–

- lleihau'r cyfnod rhyddhad ar gyfer y rhan fwyaf o fethdalwyr o'r tair blynedd fel y mae ar hyn o bryd i uchafswm o 12 mis. Bydd hyn yn golygu bod person yn rhydd o'r cyfyngiadau a osodir gan y gorchymyn methdaliad yn gynharach a fydd yn cynorthwyo gwaith adfer ac yn helpu busnesau i gael eu sefydlu a'u hailsefydlu (paragraffau 1.10–1.20);
- lleihau'r stigma o fethu drwy adolygu perthnasedd y cyfyngiadau statudol ar fethdaliadau heb eu rhyddhau sy'n ymddangos yn ddiangen neu yn hen ffasiwn (paragraffau 1.21–1.24); a
- darparu cyfundrefn cyfyngiadau llymach ar gyfer methdalwyr y bu eu hymddygiad yn anghyfrifol, yn ddiofal neu'n feius mewn modd arall (paragraffau 1.25–1.39).

Diwygiadau Ansolfedd Corfforaethol

Mae'r pecyn o ddiwygiadau yn y sector corfforaethol wedi'i gynllunio i greu system decach lle ceir dyletswydd gofal tuag at bob credydwr, system y gall pob credydwr gymryd rhan ynddi. Dylai hefyd helpu i sicrhau'r gwerth economaidd uchaf drwy alinio cymhellion yn briodol a bydd yn sicrhau na fydd cwmnïau sy'n profi anawsterau ariannol yn mynd i'r wal yn ddiangen. Bydd y cynigion yn:–

- cyfyngu ar yr hawl i benodi derbynnydd gweinyddol i ddeiliaid taliadau ansefydlog sydd wedi'u caniatáu mewn perthynas â thrafodion penodol yn y marchnadoedd cyfalaf (paragraffau 2.2–2.6 a 2.18); a
- ceisio symleiddio'r weithdrefn weinyddol er mwyn sicrhau ei bod yn weithdrefn gwbl effeithiol ym mhob sefyllfa (paragraffau 2.7–2.17).

Diddymu Ffafriaeth y Goron

Yn olaf, fel rhan bwysig ac annatod o'n cynigion, byddwn yn parhau â'r gwaith o ddiddymu ffafriaeth y Goron ym mhob achos o ansolfedd.

Y Gyfundrefn Ariannol

Diben y newidiadau i'r gyfundrefn ariannol y mae'r Gwasanaeth Ansolfedd yn gweithredu oddi tani fydd:–

- cefnogi'r diwygiadau i bolisi ansolfedd gan sicrhau sefyllfa well a thecach ar gyfer credydwyr a moderneiddio'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Ansolfedd yn gweithredu (paragraff 1.51).

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu gydag isafswm sgôr HMSO o 25
Gorffennaf 2001. Yr Adran Masnach a Diwydiant.
ⓗ Hawlfraint y Goron. http://www.dti.gov.uk
URN 01/1074